**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Yr Amgylchedd Naturiol

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 19 Mai 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L J Tyler-Lloyd | M H Jones |
| M Sherwood | C Richards | B J Rowlands |

**Aelodau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Andrea Lewis | Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Emily Davies | Swyddog Craffu |
| Rachel Lewis | Rheolwr Prosiect y Gyfarwyddiaeth |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Suzy Richards | Swyddog Polisi Cynaliadwy |
| Deborah Hill | Arweinydd Tîm, Cadwraeth Natur |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S J Gallagher, I E Mann, H M Morris a/ac W G Thomas

---

## 39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cynghorydd M Sherwood fudd fel un o gyflogeion Gower Power Co-Op C.I.C

## 40 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 41 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd Panel Craffu Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol, a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021, yn gofnod cywir.

42 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

43 **Datganiad Argyfwng Hinsawdd - Cynnydd o ran Cynllun Gweithredu'r Cyngor**

Cynhaliodd y panel drafodaeth ar gynnydd y cyngor o ran y Datganiad Argyfwng Hinsawdd. Clywodd y panel hefyd gan y Cyfarwyddwr Lleoedd ynglŷn â'r adborth diweddar ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cynllun gweithredu Newid yn yr Hinsawdd. Cyfrannodd y Cynghorydd Andrea Lewis a'r Cynghorydd Louise Gibbard hefyd at drafodaethau ac atebwyd cwestiynau. Nodwyd bod y cyngor wedi derbyn tua 1,000 o ymatebion mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhoddodd y panel ddiolch i'r holl swyddogion a oedd yn ymwneud â dylunio'r arolwg a'i rhoi ar waith.

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar:

- Y gwaith parhaus ac wedi'i wreiddio sydd eisoes yn cael ei wneud gan y cyngor, cyn y Datganiad Argyfwng Hinsawdd ym mis Mehefin 2019.
- Cynnydd a chamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith tuag at gyflawni 'cyngor di-garbon net' erbyn 2030, sy'n cynnwys pwyntiau fel cerbydlu trydan, ymrwymiadau'r gronfa bensiwn, goleuadau stryd a phaneli solar.
- Polisïau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol, Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Amlinellodd dangosyddion perfformiad drafft ragolygon o ostyngiadau o flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Gweithio ar y cyd ac ymrwymiadau ar y cyd, gan arwain drwy esiampl a herio eraill i ymuno.
- Erbyn 2050, nod Abertawe fel Dinas a Sir gyfan yw cyflawni allyriadau di-garbon net.
- Canlyniadau'r arolwg: Cyfradd ymateb amrywiol ac eithriadol o uchel.
- Bylchau COVID – trefnwyd rhagor o ymgysylltu wedi'i dargedu'n â phlant, pobl ifanc, busnesau a chyfleoedd wyneb yn wyneb all-lein. Trafododd yr aelodau'r angen parhaus am well ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, a sut y gall y cyngor ymgysylltu'n well â'r grwpiau hyn.

Manteisiodd y panel hefyd ar y cyfle i holi am argaeledd pwyntiau gwefru ceir trydan a datblygiadau yn y maes hwn. Esboniodd y Cynghorydd Lewis fod pwyntiau newydd yn cael eu gosod ar draws y ddinas, sy'n ceisio rhoi gwell mynediad i bwyntiau gwefru.

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y ffordd ymlaen. Soniodd y panel am y gwaith trawiadol a llawn gwybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn a'u hymdrechion ynghylch y maes gwaith parhaus a thrawsbynciol hwn.

**CYTUNWYD** y byddai'r Panel yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet gyda'i farn a'i argymhellion.

44 **Llythyrau**

Derbyniodd y panel yr ohebiaeth a anfonwyd gan y panel yn dilyn cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.

45 **Cynllun Gwaith**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.48pm

**Cadeirydd**